

**Cod Ymddygiad
Lleol
Hysbysiadau Cosb
Benodedig Addysg**

Dyddiad: Medi 2014

1. Fframwaith Cyfreithiol

1.1. Mae'r gyfraith yn grymuso Swyddogion dynodedig o Gyngor Sir y Fflint, Penaethiaid, a'u dirprwyon enwebedig a'r Heddlu i roi Hysbysiadau Cosb Benodedig i rieni plant sy'n absennol o'r ysgol yn ddiawdurdod.

Amlinellir y rheolau sy'n llywodraethu gweithrediad y pwerau hyn a'r ffactorau y dylid eu cymryd i ystyriaeth wrth ddsbarthu Hysbysiad Cosb Benodedig yn:

- Y Ddeddf Addysg 1996;
- Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013; a hefyd, wrth ddsbarthu Hysbysiadau Cosb Benodedig rhaid cydymffurfio â deddfwriaethau perthnasol eraill, megis y Ddeddf Hawliau Dynol a'r deddfwriaeth Cyfle Cyfartal, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio mewn modd teg a chyson.
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

1.1.1. Mae Cyngor Sir y Fflint yn gyfrifol am ddatblygu protocol y bydd pob partner e.e. yr Heddlu, awdurdodau cyfagos, ac ysgolion ac ati yn ei ddefnyddio.

2. Rhesymeg

2.1. Mae Adran 7 o Ddeddf Addysg 1996 yn datgan:

“Bydd rhiant pob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn sicrhau fod y plentyn yn derbyn addysg lawn-amser effeithlon sy'n addas i'w oedran, gallu a dawn ac sy'n ymateb i unrhyw anghenion addysgol arbennig sydd ganddo/ganddi naill ai trwy bresenoldeb rheolaidd yn yr ysgol neu fel arall.”

2.1.1. Mae presenoldeb rheolaidd a phrydlon mewn ysgol neu ddarpariaeth amgen yn ofyn cyfreithiol ac yn hanfodol i alluogi plant i wella eu cyraeddiadau addysgol a chynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt.

2.1.2. Dengys tystiolaeth fod plant â lefelau presenoldeb gwael yn annhebygol o lwyddo'n academaidd ac maent yn llawer llai tebygol o fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) pan fyddant yn gadael yr ysgol. Mae pobl ifanc NEET yn debygol o fod â chefnidir o ddiffyg presenoldeb ac absenoldeb rheolaidd ym mlwyddyn 10 ac 11.

2.1.3. Mae Adran 444 o Ddeddf Addysg 1996 yn ei gwneud yn drosedd i riant fethu â sicrhau fod plentyn yn bresennol yn ei ysgol gofrestredig a phan na fydd yr ysgol wedi awdurdodi'r absenoldeb.

2.1.4. Mae'r diffiniad o “riant” yn cynnwys pob rhiant naturiol, p'un a yw'n briod ai peidio, ac unrhyw un sydd, er nad ydynt yn rhieni naturiol, â chyfrifoldeb rhiant a/neu sy'n gofalu am blentyn neu unigolyn ifanc.

2.1.5. Mae ymyrraeth a dargedir yn chwarae rôl hanfodol wrth geisio datrys problemau sy'n ymwneud â diffyg presenoldeb, fodd bynnag pan na fydd hynny'n llwyddo i greu'r effaith ddymunol gall Awdurdodau Lleol ddefnyddio nifer o gosbau eraill er mwyn ceisio sicrhau presenoldeb rheolaidd.

2.2. Hysbysiadau Cosb Benodedig yw un o'r cosbau sydd ar gael ar gyfer y drosedd hon ac mae'n ymyrraeth addas ac effeithiol er mwyn ceisio gwella lefelau absenoldeb di-awdurdod, cyn iddynt droi'n absenoldebau sefydledig a pharhaus, gan ostwng yr angen am erlyniadau hir a chostus.

2.2.1. Defnyddir Hysbysiadau Cosb Benodedig a chosbau eraill pan na fydd y rhieni yn cydweithredu â'r broses hon neu pan na fydd eu cydweithrediad yn ddigonol i ddatrys y broblem. Fe'u defnyddir i gynorthwyo rhieni i gyflawni eu cyfrifoldebau cyfreithiol a phan fydd disgwyl iddynt sicrhau gwellhad mewn presenoldeb o fewn rheswm.

3. Polisi a Chyhoeddusrwydd.

3.1. Bydd gwybodaeth am Hysbysiadau Cosb Benodedig yn cael ei chynnwys ym Mholisiau Presenoldeb yr Ysgol a thynnir sylw'r rhieni at y mater.

4. Monitro ac adolygu.

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn gwerthuso effeithiolrwydd Hysbysiadau Cosb Benodedig bob blwyddyn ac yn newid ei strategaeth orfodi gyffredinol fel sy'n briodol gan ddibynnu ar weithrediad y flwyddyn flaenorol. Bydd adroddiadau blynyddol yn cael eu cynhyrchu ar gyfer y Pennaeth Gwasanaeth.

Protocolau a gweithdrefnau Cyngor Sir y Fflint mewn cysylltiad â Hysbysiadau Cosb Benodedig

Dosbarthu Hysbysiad Cosb

- Dim ond mewn achosion o absenoldeb di-awdurdod y gellir dosbarthu Hysbysiad Cosb Benodedig;
- Cyfyngir Hysbysiadau Cosb Benodedig i un hysbysiad i bob rhiant disgybl ym mhob blwyddyn academiaidd;
- Mewn achosion lle mae mwy nag un disgybl o'r un teulu â lefelau presenoldeb gwael, mae'n bosibl y caiff Hysbysiadau eu dosbarthu ar gyfer mwy nag un plentyn;
- Ni fydd cyfyngiad ar nifer y rhybuddion ffurfiol o Hysbysiad Cosb Benodedig posibl y gall rhiant eu derbyn.

Gall Hysbysiadau Cosb gael eu hystyried yn briodol pan fydd:

Bydd angen i'r awdurdod lleol sicrhau fod hyn yn fethiant i sicrhau 'presenoldeb rheolaidd'.

- Plentyn yn methu o leiaf 20 sesiwn (10 diwrnod ysgol) o ganlyniad i absenoldeb di-awdurdod yn ystod y tymor presennol. Nid oes raid i'r rhain fod yn olynol;
- Plentyn yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr yn gyson, h.y. ar ôl cau'r gofrestr, yn y tymor presennol. Mae "cyson" yn golygu cyrraedd yn hwyr i o leiaf 10 sesiwn;
- Triwantiaeth; a ddiffinnir fel aros i ffwrdd o'r ysgol heb reswm da (Oxford dictionary)
- Ni roddir Hysbysiad Cosb i blant sydd yng ngofal yr ALI - defnyddir ymyraethau eraill ar eu cyfer nhw.

Ystyried ac asesu p'un a ddylid dosbarthu Hysbysiad Cosb Benodedig

Bydd penaethiaid, eu dirprwyon enwebedig a Gwasanaethau Lles Cynhwysiant yn rhoi ystyriaeth i'r pwyntiau canlynol wrth bennu a ddylid dosbarthu Hysbysiad Cosb Benodedig:

- Lefelau absenoldeb;
- Ystyriaeth i Ddeddfwriaethau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth;
- Unrhyw ddatganiad Anghenion Dysgu Arbennig;
- Problemau presenoldeb blaenorol a chamau a gymerwyd;
- Dulliau atal a allai fod ar gael;
- Canllaw Llywodraeth Cymru (LIC);
- Effeithiolrwydd tebygol Hysbysiad Cosb Benodedig fel modd o gael pobl i gydymffurfio;
- Lefel ymgysylltiad/cydweithrediad y rhieni.

Gweithdrefn ar gyfer Dosbarthu Hysbysiadau Cosb Benodedig

Swyddogion enwebedig yn y Gwasanaeth Lles Cynhwysiant (GLIC) fydd yr unig unigolion a ganiateir i ddosbarthu Hysbysiadau Cosb Benodedig yn Sir y Fflint. Bydd hyn yn

sicrhau darpariaeth gyson a theg a bydd yn galluogi ysgolion i gynnal perthynas dda â rhieni a sicrhau eu bod yn atgyfnerthu unrhyw gosbau gorfodi eraill.

Anfonir Hysbysiadau Cosb Benodedig drwy'r post ac ni fyddant byth yn cael eu defnyddio fel cam gweithredu di-oed, e.e. yn ystod cyrch triwantiad. Bydd hyn yn galluogi swyddogion i sicrhau fod yr holl ofynion tystiolaethol mewn lle ac yn cyfyngu ar risgiau iechyd a diogelwch i unigolion. (Cyfeiriwch hefyd at ganllaw Cyngor Sir y Fflint ynglŷn â Gweithio Unigol) sy'n gysylltiedig â darparu Hysbysiadau tebyg â llaw.

Ceisiadau am ddsbarthu Hysbysiad Cosb Benodedig

Pan fydd ysgolion, yr Heddlu neu awdurdodau lleol cyfagos yn gwneud cais am ddsbarthu Hysbysiad Cosb Benodedig, caiff eu cais ei hymchwilio a'i gweithredu gan y Gwasanaeth Lles Cynhwysiant (GLIC), cyn belled a bod:

- Amgylchiadau'r achos yn diwallu meini prawf a nodwyd yn y Cod Ymarfer hwn;
- Y disgybl yn gofrestredig mewn ysgol yng Nghyngor Sir y Fflint;
- Pob tystiolaeth angenrheidiol wedi'i darparu i'r Gwasanaeth Lles Cynhwysiant (GLIC) i ganfod a oes trosedd wedi digwydd o dan Adran 444(1) neu 444(1A) o Ddeddf Addysg 1996 neu Adran 103 o'r Ddeddf Addysg ac Archwiliadau 2006; Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) Cymru 2013;
- Ni fyddai dosbarthu Hysbysiad Cosb Benodedig yn gwrthdaro ag unrhyw strategaeth ymyrryd arall sydd mewn lle neu gosb gorfodaeth arall sydd eisoes yn cael ei phrosesu ac mae disgwyl i'r Hysbysiad Cosb Benodedig wella lefelau presenoldeb y plentyn yn yr ysgol o fewn rheswm;
- Bydd y GLIC yn ymateb i bob cais cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl ei derbyn, ac os yw'n fodlon fod yr holl feini prawf perthnasol yn cael eu hateb, bydd yn dosbarthu rhybudd ysgrifenedig ffurfiol i'r rhiant o'r posibilrwydd y byddant yn derbyn Hysbysiad Cosb Benodedig;
- Cyfnod o 15 diwrnod ysgol yn cael ei osod pan na ddylai'r disgybl fod yn absennol heb awdurdod, a rhoi'r cyfle i'r rhiant ymateb; gellir cynnwys y wybodaeth hon yn y rhybudd ysgrifenedig ffurfiol, os oes un wedi'i ddsbarthu; (gweler pwynt 7 am eithriad yn atodiad 1) ac
- Ar ôl rhoi ystyriaeth briodol i ffeithiau'r achos, dosbarthu Hysbysiad Cosb Benodedig drwy Bost Dosbarth Cyntaf (a gofnodwyd) yn unig ar ddiwedd y cyfnod o 15 diwrnod, os na welwyd gwelliant digonol yn lefelau presenoldeb y disgybl yn yr ysgol.

Monitro ac Adolygu

Rhoddir pob Hysbysiad Cosb Benodedig mewn cronfa ddata a gedwir gan y GLIC i sicrhau nad oes unrhyw Hysbysiadau Cosb Benodedig yn cael eu dosbarthu fwy nag unwaith ac i werthuso effeithiolrwydd y broses yn y Sir.

Gweithdrefn ar gyfer tynnu Hysbysiadau Cosb Benodedig yn ôl

Ar ôl ei ddsbarthu, dim ond os yw'r GLIC yn fodlon â'r pwyntiau canlynol y gellir tynnu Hysbysiad Cosb Benodedig yn ôl:

- Cafodd yr Hysbysiad Cosb Benodedig ei roi i'r unigolyn anghywir;
- Nid oedd yr Hysbysiad Cosb Benodedig yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer hwn;
- Mae'r dystiolaeth yn dangos na ddylai'r Hysbysiad Cosb Benodedig fod wedi'i ddsbarthu, e.e. dystiolaeth feddygol
- Mae amgylchiadau'r achos yn gwarantu ei fod yn cael ei dynnu'n ôl.

Hawl i apelio

Nid oes hawl i apelio, ond pan fydd rhiant yn herio Hysbysiad Cosb Benodedig a roddwyd iddo/iddi, gall gyflwyno unrhyw gwynion i'r GLIC a/neu ddewis wynebu camau cyfreithiol yn y Llys Ynadon o dan Adran 444 o Ddeddf Addysg 1996.

Talu Hysbysiadau Cosb Benodedig

Mae'r Hysbysiad Cosb yn cynnwys manylion ynglŷn â sut i dalu'r ddirwy.

Mae talu Hysbysiad Cosb Benodedig yn rhyddhau atebolrwydd y rhiant am y cyfnod dan sylw ac ni ellir eu herlyn ar ôl hynny o dan bwerau gorfodaeth eraill ar gyfer y cyfnod a gwmpesir yn yr Hysbysiad Cosb Benodedig.

Os caiff yr Hysbysiad Cosb Benodedig ei dalu cyn pen 28 diwrnod, bydd £60 yn daladwy neu £120 os caiff ei dalu cyn pen 42 diwrnod. Ni dderbynnir taliadau gan rieni ar ôl 42 diwrnod ac ni ellir talu mewn rhandaliadau chwaith.

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn dargadw unrhyw refeniw o'r Hysbysiadau Cosb Benodedig ar wahân ac fel arfer yn ei ddefnyddio i dalu costau gorfodaeth e.e. costau sy'n gysylltiedig â dosbarthu, casglu neu erlyn pan na fydd Hysbysiadau Cosb Benodedig yn cael eu talu. Caiff unrhyw beth dros ben, os o gwbl, ei ildio i Gronfa Gyfuno Cymru.

Methu â thalu Hysbysiadau Cosb Benodedig

Mae'n bosibl y bydd methu â thalu Hysbysiad Cosb Benodedig yn arwain at erlyniad ar gyfer y cyfnod a gwmpesir gan yr Hysbysiad Cosb Benodedig o dan Adran 444 o Ddeddf Addysg 1996.

Cyfle Cyfartal

Rhaid i Hysbysiadau Cosb Benodedig gydymffurfio â deddfwriaethau a rheoliadau cysylltiedig eraill, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio mewn modd teg a chyson a'u bod wedi rhoi ystyriaeth briodol i'r plentyn/plant a'r teuluoedd dan sylw. Gweler rhai ohonynt isod ond nid yw'r rhestr hon yn un hollgynhwysol:-

- Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae Polisi Cydraddoldebau'r Cyngor yn cwmpasu ystod lawn o faterion y dylid eu hystyried, yn dibynnu ar yr achos unigol.

Atodiad 1

**Rhestr Wirio Cais am Hysbysiad Cosb Benodedig (i'w chyflwyno gyda'r cais)
Cais am Hysbysiad Cosb am Absenoldeb Di-awdurdod**

Hysbysiad Cosb Benodedig - Rhestr Wirio

1. Pwy sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y disgybl?

Enwch y sawl sy'n gofalu am y disgybl o ddydd i ddydd os yw'n wahanol

Cyfrifoldeb rhiant.....

Gofal o ddydd i ddydd.....

2. A yw cyfnod absenoldeb y disgybl wedi arwain at fethu o leiaf 20 o sesiynau ysgol?

Ydy / Nac ydy

3. A yw'r rhiant a enwir yn yr ateb i gwestiwn 1 eisoes wedi derbyn Hysbysiad Cosb Benodedig? Os felly, pryd?

Ydy / Nac ydy

Nodwch bryd:

.....
.....
.....

4. A wnaethpwyd cais i'r ysgol gan y rhiant am wyliau yn ystod y cyfnod y dymunwch ddsbarthu Hysbysiad Cosb Benodedig ar ei gyfer?

Os felly, beth oedd y rheswm dros ei wrthod? Atodwch gopiâu o'r ohebiaeth a gyfnewidiwyd.

Os ddim, esboniwch pam ydych yn amau fod gwyliau di-awdurdod wedi'i gymryd?

.....
.....
.....
.....

5. Beth yw cefndir presenoldeb y disgybl hyd yma (atodwch argraffiadau SIMS)?

.....
.....
.....

6. A oes gan y disgybl unrhyw ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig?

.....
.....
.....

7. A oes gan y disgybl Anabledd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?

.....
.....
.....

8. Beth a wyddoch am amgylchiadau personol y disgybl?

.....
.....
.....

9. A oes unrhyw amgylchiadau eithriadol y dylai'r Cyngor fod yn ymwybodol ohonynt?

.....
.....
.....

10. A yw'r disgybl wedi cael gwyliau neu gyfnod hir o absenoldeb blaenorol yn ystod y flwyddyn academaidd y cymerwyd gwyliau di-awdurdod?

.....
.....
.....

11. A yw'r rhiant wedi bod mewn cysylltiad â'r ysgol ynglŷn â'r absenoldeb?

.....
.....
.....

12. A yw Cod Ymddygiad Cyngor Sir y Fflint wedi cael ei ystyried?

.....
.....
.....

CAIS AM HYSBYSIAD COSB
ABSENOLDEB DI-AWDURDOD - Adran 444, Deddf Addysg, 1996

Defnyddir y wybodaeth ar y ffurflen hon mewn camau cyfreithiol o dan y Ddeddf uchod sy'n ymwneud â diffyg presenoldeb mewn ysgol pan fydd Hysbysiad Cosb Addysg wedi'i ddsbarthu ac yn dal heb ei dalu. Gofynnaf i'r Awdurdod Lleol ystyried dosbarthu Hysbysiad Cosb Benodedig i riant/rhieni'r disgybl canlynol:

Manylion y disgybl

Ysgol gofrestredig.....

Enw'r disgybl D.G..... Blwyddyn.....

Cyfeiriad.....
.....
.....
.....

Rhiant 1

Enw llawn..... D.G.....

Cyfeiriad.....
.....
.....
.....

Rhiant 2

Enw llawn..... D.G.....

Cyfeiriad.....
.....
.....
.....

Mae'r term "rhiant", mewn perthynas â phlentyn neu unigolyn ifanc, yn cynnwys unrhyw un nad yw'n rhiant i'r plentyn ond sydd â chyfrifoldeb rhiant drosto/drosti, neu sy'n gofalu am y plentyn.

Trwy wneud y cais hwn, rwy'n cadarnhau na fyddai camau tebyg yn gwrthdaro â strategaethau ymyrryd eraill sydd eisoes mewn lle neu fesurau gorfodi eraill sydd eisoes yn cael eu prosesu. Gallaf gadarnhau hefyd fod corff llywodraethu'r ysgol hon wedi adolygu ei bolisi presenoldeb a chytuno y bydd yr ysgol hon yn gwneud cais i'r Awdurdod Lleol ddsbarthu Hysbysiad Cosb mewn achosion priodol.

Sut cysylltwyd â'r rhiant ynglŷn â'r absenoldebau di-awdurdod?

Cyfarfod Ysgol Llythyr Galwad Ffôn

A yw'r teulu yn hysbys i unrhyw Wasanaethau eraill? e.e. Gwasanaethau Plant, CAMHS?
Ydy / Nac ydy

A oes unrhyw amgylchiadau nodedig i'w hystyried, e.e. iechyd meddwl, profedigaeth,
deinameg teuluol / trais yn y cartref? Oes / Nac oes

Os oes, rhowch fanylion llawn:

Llofnod..... Swydd Dyddiad:.....

Amgawch dystysgrif cofrestru diweddar.

Atodiad 2

Mae deddfwriaethau perthnasol sy'n ymwneud â Hysbysiadau Cosb Benodedig yn cynnwys:

Deddf y Plant 1989

Mae'r diffiniad o "riant" yn golygu pob rhiant naturiol, p'un a ydynt yn briod ai peidio; a hefyd unrhyw un sydd, er nad yw'n rhiant naturiol, â chyfrifoldeb rhiant a/neu sy'n gofalu am y plentyn neu'r unigolyn ifanc.

Deddf Addysg 1996

Adran 7	Dyletswydd rhieni i sicrhau addysg i blant oedran ysgol gorfodol;
Adran 8	Diffiniad o oedran ysgol gorfodol;
Adran 444	Trosedd: Methu â sicrhau presenoldeb rheolaidd yn ysgol y disgybl cofrestredig;
Adran 444A	Hysbysiad cosb am fethu â sicrhau presenoldeb rheolaidd yn ysgol y disgybl cofrestredig;
Adran 444B	Hysbysiadau cosb: atodol;
Adran 444ZA	Gweithredu Adran 444 ar gyfer darpariaeth addysgol amgen
Adran 576	Ystyr "riant"

Deddf Addysg ac Archwiliadau 2006

Adran 103	Dyletswydd y rhiant mewn perthynas â disgybl a waharddwyd;
Adran 104	Hysbysiad i riant ynglŷn â disgybl a waharddwyd;
Adran 105	Hysbysiad cosb ynglŷn â phresenoldeb disgybl a waharddwyd mewn man cyhoeddus;